

Chwarae dros Gymru

Gwanwyn | Haf
2026

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan yr
elusen genedlaethol dros chwarae



© Y Fenter

O bolisi i ymarfer chwareus

Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

Cynnwys

- | | |
|--|---|
| 3 Newyddion | 14 Llwybr i Waith Chwarae |
| 6 Diwrnod Rhyngwladol Chwarae | 15 Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae – diweddariad terfynol |
| 8 Diwrnod Chwarae | 16 Dirprwy Brif Weinidog – cyfweliad |
| 10 Cyfoethogi chwarae mewn ysgolion | 18 Datblygu'r gweithlu |
| 12 Polisi addysg – creu'r cysylltiadau | 20 Cymunedau chwarae |

Diolch

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud hebddoch chi.

Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o

www.chwarae.cymru

Golygyddol

Chwarae yw un o'r ffyrdd symlaf a mwyaf pwerus y bydd plant yn profi llawenydd. Dyma sut bydd plant yn gwneud ffrindiau, rhoi tro ar syniadau, symud, chwerthin, negodi, defnyddio eu dychmyg, gwneud synnwyr o'r byd a theimlo eu bod yn perthyn. Ar draws Cymru, rydym wedi hen gydnabod, eiriol dros a dathlu hawl plant i chwarae trwy bolisi, deddfwriaeth ac arfer da.

Mae'r Diwrnod Rhyngwladol Chwarae yn ddathliad byd-eang o hawl pob plentyn i chwarae ac mae'r Diwrnod Chwarae yn dod a chymunedau yn y DU ynghyd i eiriol dros bwysigrwydd chwarae ym mywydau bob dydd plant. Gyda'i gilydd, maent yn ein hatgoffa bod plant angen amser, lle a rhyddid i chwarae trwy gydol y flwyddyn. Er cyn bwysied yw ymgyrchoedd a dyddiau arbennig penodol, mae dathlu chwarae'n golygu mwy na dim ond y digwyddiadau hyn.

Pan fyddwn ni wir yn dathlu chwarae, fe fyddwn ni'n sylwi ar ac yn gwarchod yr enydau bob dydd: plant yn rhedeg mewn parc, neidio mewn pyllau dŵr, creu gêm, chwilio am ddreigiau a thylwyth teg neu chwarae'n wyllt gyda ffrindiau neu frodyr a chwiorydd. I oedolion, efallai bod yr enydau hyn o chwarae'n ymddangos yn ddibwys fychan, ond i'r plant maen nhw'n bwysig dros ben. Mae'r enydau hyn o chwarae, o fod yn iach, yn cynnig

dewis a phosibiliadau ym mywydau plant. Fe fyddan nhw'n digwydd yn aml pan nad yw'r plant o amgylch oedolion, a phan nad oes rhywun yn dweud wrthyn nhw beth i'w wneud a sut i'w wneud.

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd, dylem gofio bod ysgolion yn fannau ble bydd llawer o blant yn treulio cyfnod sylweddol o amser. Mae blwyddyn ysgol newydd yn cynnig cyfle delfrydol i'n hatgoffa ein hunain pa mor bwysig yw hi i sicrhau bod chwarae'n ganolog i brofiad dyddiol pob plentyn o'r ysgol – yn yr ystafell ddosbarth a'r tu hwnt iddi.

Bydd dathlu chwarae mewn ysgolion yn dechrau'n aml gyda phenderfyniadau bychain, ond ystyriol. O gefnogi staff i ddeall chwarae gaiff ei arwain gan y plant yn ystod egwylliau, i annog arddulliau chwarae yn yr ystafell ddosbarth ble mae croeso i hiwmor, archwilio a chwilfrydedd, i ddatblygu polisiau sy'n sicrhau nad yw amserau chwarae'n cael eu trin fel gwobr y mae rhaid ei hennill neu'n ffraind y gellir ei thynnu oddi arnoch. Mae gan blant hawl i chwarae.

Wrth inni barhau i ddathlu chwarae trwy gydol y flwyddyn, cawn ein hysbrydoli gan ysgolion sydd wedi edrych ar y diwrnod ysgol trwy lygaid eu disgyblion. Fel yr ysgolion hyn, dylai pob oedolyn fod yn gofyn: ble a phryd all plant ddewis sut y maent am chwarae, ymgasglu gyda ffrindiau, eu profi eu hunain, cael hwyl? Pan welwn ni fwy o enghreifftiau o hyn ar gyfer mwy o blant, mewn mwy o fannau, yna byddwn yn symud yn nes at wireddu uchelgais Cymru i fod yn wlad chwarae-gyfeillgar.

“ I oedolion, efallai bod yr enydau hyn o chwarae'n ymddangos yn ddibwys fychan, ond i'r plant maen nhw'n bwysig dros ben. Mae'r enydau hyn o chwarae, o fod yn iach, yn cynnig dewis a phosibiliadau ym mywydau plant. ”



Llongyfarchiadau i dderbynyddion cyntaf *Chwarae o Safon*

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod marc safon newydd Chwarae Cymru, *Chwarae o Safon*, bellach wedi ei ennill gan ddau leoliad.

Llongyfarchiadau i Dîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Kate Wright, gwarchodwr plant yn Sir Ddinbych. Cyflwynodd y ddau leoliad ystod eang o dystiolaeth sy'n cyflawni'r dangosyddion ansawdd a geir yn ein cynllun sicrhau ansawdd.

Mae sicrhau ansawdd gwaith chwarae'n broses o edrych yn fanwl ar ymarfer gwaith chwarae er mwyn gwella ansawdd profiadau chwarae plant yn yr amrediad eang o leoliadau ble bydd gwaith chwarae'n digwydd. Mae'n adeiladu ar gymwysterau, hyfforddiant, profiad a gwybodaeth gweithwyr chwarae am yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.

Mae *Chwarae o Safon* yn ffurfioli'r broses hon fel y gallwn dystio i'r ffaith bod y lleoliad yn cyflawni disgwyliadau ansawdd ein sector, fel yr amlinellir yn yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) a chymwysterau. Gall lleoliadau ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth a gynhyrchir fel rhan o ymarfer bob dydd, all gynnwys polisïau a gweithdrefnau, dyddiaduron myfyriol, cyhoeddusrwydd, gwybodaeth i rieni, adborth, gwerthusiadau a chofnodion cyfarfodydd tîm.

Dyweddodd Mel Kearsley, Gweithiwr Datblygu Chwarae yn Nhîm Datblygu Chwarae Wrecsam:

'Rydym wedi teimlo bod proses *Chwarae o Safon* yn un fuddiol iawn, roeddem ni'n hyderus ein bod yn rhedeg gwasanaeth proffesiynol beth bynnag, ond wrth inni ddechrau gweithio trwy'r meini prawf fe wnaethom sylweddoli bod polisïau y gallem eu diwygio er mwyn eu diweddarau a meysydd ymarfer y gallem eu cryfhau, er

enghraifft cofnodi ein myfyrdodau a'u rhoi ar waith.

Mae meddu ar y marc safon yn dangos i adrannau eraill o'r cyngor ac i broffesiynau eraill ein bod ni'n cyflawni safonau ac mae'n helpu i brofi ein proffesiynoldeb. Rwy'n argymhell y broses i bob sefydliad gwaith chwarae gan ei fod wir wedi helpu i amlygu ein cryfderau ond hefyd feysydd y gallwn eu gwella. Roedd hefyd yn gyfle i gynnwys y tîm i gyd, gan ei fod yn gofyn am dystiolaeth o nifer o ffynonellau.'

Meddai Kate Wright, gwarchodwr plant:

'Rwy'n falch iawn imi dderbyn Marc Safon Ymarfer a Pholisi *Chwarae o Safon*.

Pan gododd y cyfle i gymryd rhan yn *Chwarae o Safon*, fe neidiais am y cynnig i fyfyrir ar fy narpariaeth gofal plant, ac i wella, addasu a thystio i ansawdd yn fy lleoliad.

Doedd dim rheidrwydd imi gwblhau'r adrannau ymarfer a pholisi, ond roeddw'n i'n teimlo ei bod hi'n werth rhoi tro ar y ddau. Mae'r broses wedi cael effaith cadarnhaol ar fy lleoliad, gan fy helpu i fyfyrir ar yr hyn yr ydw i'n ei wneud yn dda ac i ddynodi



ffyrdd i gryfhau ansawdd y cyfleoedd chwarae yr ydw i'n eu darparu. Os ydych chi'n gwerthfawrogi chwarae a hawl plant i gael mynediad i gyfleoedd chwarae o safon, fe fyddwn i'n eich argymhell yn gryf i gymryd rhan yn y marc safon.'

I ddysgu mwy am y broses sicrhau ansawdd a'r costau, ewch i:

www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/sicrhau-ansawdd

Dros y misoedd nesaf, bydd Chwarae Cymru'n cynnig gweminarau i gefnogi lleoliadau gyda'r camau nesaf ar gyfer cyflawni *Chwarae o Safon*. I gofrestru eich diddordeb yn y gweminarau, e-bostiwch gweithlu@chwarae.cymru



Ysgogi Chwarae yn Wrecsam

Wedi iddi gael ei gosod ar y rhestr hir yn gynharach eleni, mae Wrecsam wedi cyflwyno ei chais ffurfiol i'r gystadleuaeth i gael ei dewis yn Ddinas Diwylliant nesaf y DU yn 2029. Mae Wrecsam yn gosod diwylliant – a chwaraëusrwydd – wrth galon y cynlluniau i sefydlu ei hun fel lleoliad mwyaf chwareus y byd.

O'r cychwyn cyntaf, mae cais y ddinas wedi cael ei arwain gan y gymuned, gan gynnwys miloedd o bobl leol, yn cynnwys dros 1,000 o blant ysgol, y Senedd leuenctid leol a meysydd chwarae antur. Os yn llwyddiannus, Wrecsam fyddai'r ddinas gyntaf yng Nghymru i ennill y teitl nodedig hwn.

Bydd y ddinas lwyddiannus yn trosglwyddo rhaglen blwyddyn o hyd o weithgarwch diwylliannol cyfoethog wedi ei gwreiddio yn ei hunaniaeth unigryw ac yn tynnu ar gryfderau a straeon lleol. Disgwylir i'r ddinas fuddugol gael ei chyhoeddi cyn diwedd 2026.

Dywedodd Amanda Evans, Cyfarwyddwr cais Wrecsam ar gyfer Dinas Diwylliant y DU 2029:

“Yn Wrecsam, ry'n ni'n cymryd chwarae o ddifrif, fel rhyngweithiad radical sy'n allweddol ar gyfer creadigedd, cydweithredu, cyfranogi, cydlynad a lles cymdeithasol. Ein gweledigaeth yw i Wrecsam fod y man mwyaf chwareus yn y byd, ble mae chwaraëusrwydd yn hysbysu pob agwedd ar fywyd bob dydd ...”

Mae Chwarae Cymru'n falch i fod wedi gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i archwilio ffyrdd y gall gyflawni ei uchelgeisiau Dinas Diwylliant. Dylid dathlu'r ffaith bod chwarae plant wedi ei gynnwys fel nodwedd allweddol o gais Wrecsam. Mae gan Wrecsam hanes cryf o chwarae a gwaith chwarae, gyda rhwydwaith gwaith chwarae ymroddedig yn cwmpasu'r tri maes chwarae antur a thîm datblygu chwarae'r cyngor. Dylai'r ddinas ymfalchïo'n fawr yn yr hyn a gyflawnwyd hyd yma.

Am fwy o wybodaeth ar Wrecsam2029, ewch i www.wrecsam2029.wales/cymraeg

Hyrwyddo chwarae: dyddiadau i'ch dyddiaduron

Rydym yn hyrwyddo hawl plant i chwarae'n weithredol ac yn eiriol dros gyfleoedd o ansawdd da i chwarae trwy gydol y flwyddyn, ond mae dyddiau ymwybyddiaeth yn helpu i wneud chwarae'n weladwy i gynulleidfa ehangach a gallant greu newid parhaol.

Gall dyddiau ac wythnosau ymwybyddiaeth arbennig fod yn ddulliau pwerus i hybu hawl plant i chwarae gan eu bod yn creu cyfle cyffredinol inni gynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus, dylanwadu ar bolisi a gwneud penderfyniadau, ysbrydoli gweithredu a dod â chymunedau ynghyd.

Mae dyddiau ymwybyddiaeth yn helpu mwy o bobl i ddeall pam fod chwarae'n bwysig. Maent yn cynnig llwyfan inni gyfleu nad yw chwarae yn elfen foethus, ond yn rhan hollbwysig o blentynod iach a hapus sydd hefyd yn cefnogi iechyd, lles a datblygiad plant. Dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, bydd y dyddiau ymwybyddiaeth hyn yn cynnig cyfle inni gyd hyrwyddo hawl plant i chwarae:

2026

24 Hydref – Diwrnod y Cenhedloedd Unedig

5 Tachwedd – Diwrnod Ystafell Ddosbarth Awyr Agored

20 Tachwedd – Diwrnod Plant y Byd

2027

1-7 Chwefror – Wythnos Iechyd Meddwl Plant

15-21 Mai – Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl

11 Mehefin – Diwrnod Rhyngwladol Chwarae

4 Awst – Diwrnod Chwarae

Gyda'n gilydd, gallwn ddefnyddio'r dyddiau a'r wythnosau ymwybyddiaeth hyn i gadw chwarae'n uchel ar yr agenda a chymryd camau gweithredu cadarnhaol i sicrhau bod pob plentyn yn cael yr amser, lle, rhyddid a chyfle i chwarae.

Prosiect Chwarae'n Dda yng Nghymru

Yn 2025, cyhoeddodd GIG Lloegr a Starlight, elusen y DU ar gyfer chwarae mewn gofal iechyd, becyn cymorth *Play well*.

Mae'r pecyn cymorth yn dwyn ynghyd arweiniad ar gomisiynu a dylunio gwasanaeth, safonau argymelledig a rhestr wirio ansawdd i helpu gwasanaethau i gynllunio, trosglwyddo, asesu a gwella darpariaeth chwarae iechyd o safon uchel ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc.

Mae Chwarae Cymru wedi dechrau gweithio gyda Starlight i drosglwyddo prosiect *Chwarae'n Dda yng Nghymru*. Bydd y prosiect, a ddyluniwyd i gefnogi dull strategol tuag at chwarae mewn lleoliadau gofal iechyd ar draws Cymru, yn rhedeg am gyfnod o ddwy flynedd. Mae'n canolbwyntio ar wreiddio pecyn cymorth *Play well* (a ddatblygwyd gan GIG Lloegr) mewn dwy Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru, ynghyd â darparu cymorth i deuluoedd a hyfforddiant proffesiynol i gryfhau arddulliau seiliedig ar chwarae mewn gofal pediatriig.



Mae gwaith cychwynnol yn cynnwys dod a rheolwyr chwarae iechyd ynghyd a sefydlu Tasglu Chwarae'n Dda yng Nghymru gyda rhanddeiliaid allweddol yn gweithio yn y system chwarae iechyd plant yng Nghymru.

Mae Ffocws ar chwarae – Chwarae mewn gofal iechyd yn darparu gwybodaeth am bwysigrwydd chwarae mewn lleoliadau gofal iechyd, ac mae ar gael i'w lawrlwytho o'n llyfrgell adnoddau: www.chwarae.cymru/llyfrgell-adnoddau

Gofal plant yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar y trywydd cywir i gynnig 12.5 awr yr wythnos o ofal plant wedi ei ariannu ar gyfer pob plentyn dyflwydd oed erbyn diwedd Mawrth 2027. Bydd yr ehangiad hwn yn garreg filltir bwysig yn nhaith Llywodraeth Cymru tuag at gynnig gofal plant cyffredinol ar gyfer plant naw mis i bedair blwydd oed.

Meddai Chwarae Cymru:

“ Mae Chwarae Cymru'n croesawu'r ymrwymiad i ddiwygio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Rydym yn galw ar y Llywodraeth i osod chwarae wrth galon y gwaith pwysig hwn. Dylid barnu ehangu gofal plant, nid yn unig ar sail y nifer o leoedd a grëir, ond ar ei ansawdd: chwarae wedi ei arwain gan y plant, chwarae awyr agored a chwarae natur, cynhwysiant, a gweithlu wedi eu hysbysu gan chwarae a gyda chefnogaeth ddigonol. Mae *Chwarae a lles* yn dangos bod chwarae'n ffurfio datblygiad ymenyddol cynnar, creadigedd, datrys problemau, sgiliau cymdeithasol a rheoleiddio emosiynol. Dylai chwarae fod yn sylfaen ar gyfer pob darpariaeth gofal plant. ”

Am y newyddion diweddaraf, ewch i www.llyw.cymru

Cadwch y diwrnod



Bydd cynhadledd genedlaethol Chwarae Cymru'n dychwelyd yn 2027, gan ddwyn gweithwyr proffesiynol ynghyd o bob cwr o Gymru, a thu hwnt.

Bydd y gynhadledd, a gynhelir yng ngwesty'r Hilton yng Nghaerdydd ar 22 Ebrill 2027, yn cynnwys rhaglen ysbrydoledig o brif siaradwyr, gweithdai a chyfleoedd i rwydweithio. Caiff cynadleddwyr gyfle i rannu profiadau, cyfnewid syniadau a chlywed gan arbenigwyr sy'n gweithio ar draws amrediad eang o sectorau sy'n cefnogi chwarae plant.

Mae'r digwyddiad yn gyfle datblygiad proffesiynol parhaus gwerthfawr i swyddogion digonolrwydd cyfleoedd chwarae, ymarferwyr gwaith chwarae a gofal plant, aelodau etholedig a gweithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd, addysg, teithio llesol, cynllunio a datblygu cymunedol. Waeth os ydych chi'n anelu i ehangu eich gwybodaeth, darganfod ymarfer arloesol neu gysylltu gyda chydweithwyr o bob cwr o'r sector, mae cynhadledd genedlaethol Chwarae Cymru'n ddigwyddiad na ddylech ei fethu.

Am fwy o wybodaeth ac i archebu eich lle, ewch i www.chwarae.cymru/events/cynhadledd-genedlaethol-chwarae-cymru

Diwrnod Rhyngwladol Chwarae



Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi clustnodi 11 Mehefin fel Diwrnod Rhyngwladol Chwarae blynyddol, gan gydnabod bod grym chwarae wrth galon plentyndod iach a hapus. Yng Nghynhadledd Fyd-eang yr International Play Association (IPA) ym Mehefin 2023, pleidleisiodd aelodau'r IPA, yn cynnwys IPA Cymru Wales, yn unfrydol i argymhell i'r CU dros gynnal Diwrnod Rhyngwladol Chwarae. Yma, rydym yn adrodd ar sut yr aeth IPA Cymru Wales, a rhai o'i aelodau, ati i nodi'r diwrnod yn 2026.

Cydweithiodd IPA Cymru Wales gyda changhennau'r IPA yn Lloegr, Iwerddon, Gogledd Iwerddon a'r Alban, i ymuno gyda'r UK Children's Play Policy Forum i eiriol dros gyfleoedd gwell i chwarae yn yr ysgol.

Gyda'i gilydd, fe wnaethant alw ar bob ysgol i ymuno â *Her Chwarae 31* trwy roi 31 munud ychwanegol o amser chwarae i bob plentyn ar y diwrnod. Ar draws yr holl ganghennau, fe wnaeth aelodau annog ysgolion i ymestyn amserau egwyl, darparu adnoddau i gefnogi dysgu chwarae yn yr awyr agored, a chreu '31' anferth gyda sialc, rhannau rhydd neu ddeunyddiau eraill.

Ar adeg pan mae mynediad plant i chwarae yn cael ei gyfyngu fwyfwy, roedd *Her Chwarae 31* yn anelu i bwysleisio y gall amgylcheddau ysgol ddarparu ystod eang o brofiadau chwarae cyfoethog sy'n cyfrannu at iechyd, hapusrwydd a chyfleoedd bywyd gwell i blant.

Aeth Marianne Mannello, Ysgrifennydd Cangen IPA Cymru Wales, a'r neges hon i UDA gydag ymweliad i ysgol Roaring Brook School yn Avon, Connecticut. Fe weithiodd gyda'r Athro Llesiant, Holly Rzonca, i hwyluso

gweithdai gyda phlant oedran ysgol gynradd. Dyluniwyd y gweithdai i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch hawl plant i chwarae a grymuso plant i drafod eu profiadau bywyd o chwarae. Cyflwynwyd adborth o'r sesiynau hyn mewn sesiwn rhannu gyda'r staff fel rhan o raglen datblygiad proffesiynol.

Rydym yn gobeithio cael cyfle i gydweithio eto trwy roi cyfle i blant o Ysgol Roaring Brook gwrdd â phlant o Gymru ar gyfer profiad chwarae rhyngwladol dilyn.

Wrth fyfyrrio ar yr ymweliad, dywedodd Holly:

“Roedd y cyfle i gyd-ddysgu nifer o wersi gyda Marianne yn un o uchafbwyntiau fy mlwyddyn ysgol. Gyda'n gilydd, fe wnaethom ymgysylltu gyda'r disgyblion a'r staff hefyd, gan greu profiadau dysgu ystyrlon a chofiadwy. Fe wnaeth y sesiynau ysbrydoli trafodaethau ystyriol am rôl chwarae mewn addysg a datblygiad plant yn ein sesiwn rhannu gyda'r staff yn y prynhawn.”

Ychwanegodd Marianne:

“Roedd yn fraint ymweld ag Ysgol Roaring Brook a chlywed yn uniongyrchol gan y plant ynghylch yr hyn mae chwarae'n ei olygu iddyn nhw. Roedd eu hegri a'u gonestrwydd yn ein hatgoffa'n rymus bod chwarae'n fwy na dim ond hoe oddi wrth ddysgu – mae'n ganolog i les uniongyrchol plant a'u hymdeimlad o berthyn. Rwy'n ddiolchgar i gymuned yr ysgol am groeso mor gynnes ac am gefnogi hawl plant i chwarae.”

Mae aelod arall, Linda Platt, Dirprwy Brif Swyddog yn Y Fenter yn Wrecsam, yn adrodd ar sut y gwnaethant ddathlu'n llawn balchder.

“ A ninnau wedi darparu cyfleoedd chwarae mynediad agored am bron i 48 mlynedd, roeddem wrth ein bodd i eiriol dros bwysigrwydd chwarae unwaith eto yn ein cymuned drwy hyrwyddo *Her Chwarae 31*. Trwy gydol y dydd, fe wnaethom groesawu ysgolion lleol i'r Fenter, gan eu hannog i flaenoriaethu chwarae fel rhan hanfodol o blentyndod. Roedd yn wych gweld cymaint o ddisgyblion yn mwynhau'r rhyddid i archwilio, creu, dychmygu a chysylltu drwy chwarae am 31 munud neu fwy.

Yn hwyrach yn y dydd, fe barhaodd ein darpariaeth chwarae mynediad agored wrth i blant a theuluoedd ymuno â ni ar ôl ysgol am brynhawn yn llawn antur, chwerthin a hwyl. Roedd y maes chwarae'n llawn egni a gwên ar bob wyneb, gan arddangos effaith grymus chwarae ar blentyndod.

Er mwyn helpu i gyhoeddi'r neges y tu hwnt i'n maes chwarae, fe wnaethom hyrwyddo *Her Chwarae 31* yn weithredol ar draws ein platfformau ar y cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaethom rannu adnoddau a chynnwys gan yr IPA, Chwarae Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru, ynghyd â syniadau ar gyfer 31 o weithgareddau chwarae rhannau rhydd y gallai teuluoedd a chymunedau eu mwynhau gyda'i gilydd. Trwy weithio ochr yn ochr â'r sefydliadau hyn, fe wnaethom atgyfnerthu pwysigrwydd gwarchod hawl plant i chwarae ac annog eraill i ddathlu'r achlysur pwysig hwn.

Roedd y diwrnod yn ddiddorol ac yn llawn ysbrydoliaeth, gan ein hatgoffa pam fod ein gwaith yn bwysig. Bob blwyddyn y byddwn yn dathlu, mae'r neges yn tyfu'n gryfach, yn cyrraedd mwy o blant, teuluoedd, ysgolion a chymunedau. ”

Dathlodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs trwy drosglwyddo sesiynau Cymryd Drosodd y Maes Chwarae. Bellach yn ei drydedd flwyddyn, cynhaliwyd y cynllun meddiannu mewn tair ysgol ym mhob cwr o Gymru, gan roi prynhawn o chwarae a ddewiswyd o wirfodd, wedi ei arwain gan y plant.

Yr ysgolion eleni oedd Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref (Rhondda Cynon Taf), Ysgol y Dderi (Ceredigion) ac Ysgol Rofft (Wrecsam), a ddewiswyd trwy enwebiadau sector a phleidlais gyhoeddus.

Ar draws y digwyddiadau, trawsnewidiodd y plant ofodau yn yr ysgolion gan ddefnyddio rhannau rhydd, deunyddiau creadigol, gemau ac adnoddau chwarae. Fe wnaethant adeiladu dinasoedd cardbord, creu cuddfannau, archwilio



clai, swigod, sialc, offer adeiladu, gwisgo i fyny a chwarae yn yr awyr agored.

Yn Llanilltud Faerdref, cymerodd tua 180 o blant ran, wedi eu cefnogi gan staff brwdfrydig wnaeth groesawu'r prynhawn o ganolbwyntio ar chwarae. Yn Ysgol y Dderi, mwynhaodd y plant ystod eang o weithgareddau cyn i'r tîm aros ymlaen ar gyfer y Clwb Ar Ôl Ysgol, ble dyblodd y niferoedd ar gyfer y sesiwn. Yn Ysgol Rofft, mwynhaodd 176 o blant a staff brynhawn gwlyb ond llawn hwyl, yn cynnwys adeiladu cuddfannau, tincran a gweithgareddau pwl tân.

Dywedodd Sarah Bird, aelod cangen o Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs:

“ Mae'r Diwrnod Rhyngwladol Chwarae yn gyfle pwysig i ddathlu grym chwarae ac atgoffa oedolion bod plant angen amser, lle a chaniatâd i chwarae. Roedd yn wych gweld plant ar hyd a lled Cymru'n cymryd yr awenau, yn defnyddio eu dychymyg a mwynhau'r rhyddid i chwarae yn eu ffordd eu hunain. ”

I ddysgu mwy am sut i ymuno ag IPA Cymru Wales ac ychwanegu eich llais i fudiad rhyngwladol dros chwarae, ewch i: www.chwarae.cymru/polisi_chwarae/ipa-cymru-wales neu cysylltwch gyda: ipacymru@chwarae.cymru



Diwrnod Chwarae

Ar Ddydd Mercher 5 Awst 2026, dathlodd Cymru a gweddill y DU Ddiwrnod Chwarae, sef y diwrnod blynyddol ar gyfer chwarae. Rhoddodd thema eleni, Chwarae – yma, acw a phobman, gyfle gwych inni bwysleisio'r angen am gyfleoedd o ansawdd da i blant chwarae ble bynnag maen nhw – gartref, allan yn eu cymdogaethau, ac mewn lleoliadau fel ysgolion, gofal plant a darpariaeth chwarae – ar Ddiwrnod Chwarae, a bob dydd.

Ar draws Cymru, roedd yn wych gweld miloedd o blant a'u teuluoedd yn mwynhau diwrnod chwarae o hwyl mewn digwyddiadau lleol. Cydweithiodd trefnwyr Diwrnod Chwarae'n lleol i wneud yn siŵr y gallai plant a theuluoedd yn eu hardal ddathlu'r diwrnod cenedlaethol ar gyfer chwarae. Dyma ddetholiad bychan o ffotograffau o blant yn mwynhau dathliadau Diwrnod Chwarae ledled Nghymru.

© Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen



'Mae gen i hawl i chwarae' meddai'r plant yn nathliad Torfaen

© Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent



Tostio malws melys ym Mlaenau Gwent

© Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam



Paentio poitshlyd hwyliog yn nigwyddiad Wrecsam yng nghanol y ddinas



© Seren in the Community

Hwyl gyda bwyd yn nigwyddiad Seren in the Community yng Nghaerdydd

© Plant y Cymoedd



Gemau parasiwt yn Plant y Cymoedd



© Cyngor Bro Morgannwg

Dinas gardbord yn Niwrnod Chwarae Bro Morgannwg



© Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Hwyl ar y slackline yn nathliad Merthyr Tudful



© Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Chwarae gyda chardbord yn nigwyddiad blynyddol Conwy

Diolch ichi am haf o chwarae

Wrth inni fyfyrto ar bwysigrwydd dathlu chwarae bob dydd, hoffai pawb yn Chwarae Cymru ddweud diolch o galon i ddarparwyr gwaith chwarae ar draws Cymru.

O ganlyniad i egni, gofal, creadigedd ac ymrwymiad darparwyr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, mae plant wedi cael amser, rhyddid a mannau croesawus i chwarae. Cafwyd heriau digynsail eleni, ond er hynny, rydych wedi darparu rhannau rhydd, croesawu llanast ac antur, ac – yr un mor bwysig – wedi gwybod pryd i gamu'n ôl a gadael i'r plant arwain eu chwarae eu hunain.

Ry'n ni'n gwybod bod gwneud i haf o chwarae ddigwydd yn cymryd misoedd o baratoi, hyblygrwydd, codi arian a dyfalbarhad. Waeth os oeddech chi'n gweithio neu'n gwirfoddoli ar gynllun chwarae dros y gwyliu, mewn maes chwarae antur, lleoliad gofal plant, prosiect cymunedol lleol, parc lleol neu wedi trefnu digwyddiad Diwrnod Chwarae, mae eich cyfraniad wedi bod o bwys i blant a theuluoedd ledled Cymru.

O'ch herwydd chi, mae plant Cymru wedi rhoi tro ar bethau newydd, treulio amser gyda ffrindiau a chael profiadau bob dydd o lawenydd chwarae. Rydych, mewn ffordd gynnil, wedi atgoffa oedolion ar draws Cymru bod gan blant hawl i chwarae – nid dim ond dros yr haf, ond trwy gydol y flwyddyn.

Diolch o galon ichi, oddi wrth bob un ohonom yma yn Chwarae Cymru, am roi haf o chwarae i'r plant.

**Cynhelir Diwrnod
Chwarae 2027 ar
Ddydd Mercher
4 Awst!**

Cyfoethogi chwarae mewn ysgolion ar draws Cymru

Argymhelliad allweddol 15 o'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae oedd cynyddu a gwella amserau chwarae ac egwyl mewn ysgolion. Yn y detholiad hwn o'i Adroddiad Cynnydd terfynol, mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno diweddariad ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd i ymateb i'r argymhelliad.

Mae rhaglenni buddsoddi a chyllid cyfoethogi'n parhau i ddarparu cyfleoedd i ysgolion gyfoethogi darpariaeth amser chwarae ac egwyl, yn cynnwys mannau chwarae awyr agored a chynhwysol. Mae ymgysylltiad ar draws feysydd polisi llywodraeth gydag arolygwyr a llywodraethwyr yn cefnogi gwell ymwybyddiaeth o werth chwarae, a phwysigrwydd gwarchod amser a lle i blant chwarae'n ystod

y diwrnod ysgol. Mae cynnydd yn parhau wrth gefnogi chwarae mewn lleoliadau ysgolion trwy weithgarwch polisi, arolygu a buddsoddi.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi cryfhau ei dealltwriaeth o chwarae, dulliau risg-budd a datganiad lefel uchel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar chwarae trwy gwblhau hyfforddiant gyda Chwarae Cymru a Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Yn ogystal, mae AGC wedi sefydlu rhwydwaith Pencampwyr Chwarae o fewn yr arolygiaeth tra bod Estyn wedi ymrwymo i sicrhau bod arolygwyr yn deall rôl chwarae ac asesu risg-budd i hysbysu eu gwaith. Mae hyn yn cefnogi ystyriaeth fwy cyson o chwarae fel rhan o weithgarwch arolygu ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd chwarae ar draws lleoliadau addysgol a gofal plant.

Yn 2025-2026, rhoddwyd £2 miliwn i ysgolion yng Nghymru, gyda £3 miliwn pellach wedi ei ddyrannu yn 2026-2027, i gefnogi darparu gweithgarwch cyfoethogi ychwanegol, gwell yn ystod ac o amgylch y diwrnod ysgol a'r gwyliau. Mae'r amodau a thelerau'n egluro'n blaen y dylid ystyried cyfleoedd chwarae fel rhan o ddatblygu a throsglwyddo gweithgarwch.

Uchelgais ar Waith, Argymhelliad 15: Cyfoethogi Cyfleoedd Chwarae mewn Ysgolion

Yn 2025-2026, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £5 miliwn i wella ansawdd mannau chwarae a meysydd chwarae. Gan weithio'n unol â'u Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae Lleol, dynododd nifer o awdurdodau lleol ysgolion ac asedau allweddol ar gyfer cyfoethogi mynediad plant i chwarae, a hynny'n ystod y diwrnod ysgol yn ogystal ag yn y gymuned ehangach.

Ar hyd a lled Cymru, mae ariannu wedi ei ddefnyddio i ddatblygu ystod eang o fentrau wedi'u lleoli mewn ysgolion sydd wedi'u hanelu at wella profiadau amser egwyl, cynyddu mynediad i ofod awyr agored, a chryfhau cysylltiadau rhwng ysgolion a chymunedau.

Un dull cyffredin fu i gyflwyno podiau chwarae, pecynnau chwarae awyr agored a rhannau rhydd, gan alluogi ysgolion i ddarparu cyfleoedd chwarae mwy amrywiol, wedi'u harwain gan y plentyn. Er enghraifft, ehangodd Cyngor Sir Ddinbych ei fuddsoddiad mewn podiau chwarae ac offer. Yn yr un modd, darparodd Cyngor Sir Ynys Môn wyth o bodiau chwarae ar draws lleoliadau ysgolion a chymunedol, tra dosbarthodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen becynnau chwarae awyr agored yn uniongyrchol i ysgolion i gyfoethogi cyfleoedd chwarae bob dydd.

Mae rhai o'r awdurdodau wedi canolbwyntio ar ddatblygu dysgu yn yr awyr agored ac amgylcheddau chwarae naturiol. Yng Nghyngor Gwynedd, fe wnaeth cydweithio gydag ysgolion a darparwyr gofal plant gefnogi datblygiad dulliau ysgol fforest a darpariaeth podiau chwarae, gan

helpu plant i ymgysylltu gyda phrofiadau chwarae mwy naturiol, pen agored.

Mae gwella ansawdd chwarae'n ystod y diwrnod ysgol wedi bod yn flaenoriaeth allweddol hefyd. Yng Nghyngor Caerdydd, mae cyflwyniad Arweinwyr Meysydd Chwarae wedi cefnogi chwarae mwy cynhwysol, seiliedig ar gymuned yn ystod amserau egwyl. Mae'r arddull hwn wedi cyfrannu at greu amgylcheddau ysgol mwy cadarnhaol a diddorol, gan gydnabod rôl chwarae wrth gefnogi lles.

Y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, mae nifer o awdurdodau lleol wedi cymryd camau i gynyddu mynediad y gymuned i diroedd ysgol. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mae gwaith ar y gweill i ddatblygu systemau i alluogi i safleoedd ysgol gael eu hagar at ddefnydd ar ôl oriau ysgol, gan helpu i fynd i'r afael â bylchau'n lleol mewn gofod chwarae hygyrch a chryfhau rôl ysgolion fel asedau cymunedol.

Mae prosiectau eraill, fel rhaglen Cyngor Sir Penfro i ehangu cyfleoedd chwarae'r tu allan ar draws ysgolion a mentrau chwarae wedi eu lleoli mewn ysgolion yn ardal Cyngor Abertawe, yn arddangos sut gall buddsoddiadau cymharol fychan drosglwyddo gwelliannau yn argaeledd, yn ogystal ag ansawdd chwarae.

At ei gilydd, mae'r prosiectau hyn yn pwysleisio hyblygrwydd cyllid cyfalaf chwarae wrth ymateb i anghenion a ddynodir yn lleol. Trwy ddefnyddio ysgolion fel rhan o'r seilwaith chwarae ehangach, mae awdurdodau lleol wedi gallu trosglwyddo gwelliannau cost isel, effaith sylweddol sydd o fudd i gyfleoedd chwarae plant yn ogystal â'r amgylchedd ysgol ehangach.

Polisiâu chwarae ysgolion yn Sir Benfro

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae wedi cynnal gwaith gydag ysgolion ar draws Sir Benfro i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a sicrhau bod hawl plant i chwarae'n cael ei gydnabod yn amgylchedd yr ysgol. Trwy ddefnyddio arweiniad gan Chwarae Cymru, cefnogodd y tîm yr ysgolion i ddatblygu a mabwysiadu Polisi Chwarae Ysgol, gan ddarparu fframwaith clir ar gyfer hyrwyddo a gwarchod cyfleoedd i chwarae.

Roedd datblygu'r polisi yn broses gydweithredol, gyda'r ysgolion yn cael eu hannog i rannu eu syniadau ac, yn bwysig iawn, i ystyried sylwadau a phrofiadau'r plant. Cyflwynwyd y polisi terfynol i gyrff llywodraethu ysgolion ar draws y sir, gyda phob un ond dwy ysgol yn ei fabwysiadu, gan arddangos ymrwymiad cryf gan ysgolion i gydnabod gwerth a phwysigrwydd chwarae.

Mae'r gwaith wedi ymestyn y tu hwnt i ddatblygu'r polisi ei hun. Mae'r tîm wedi ymweld ag ysgolion i gynorthwyo gyda gweithredu'r polisi, yn cynnwys creu arddangosfeydd mur deniadol ac arddangos ffyrdd ymarferol a chreadigol y

gall ysgolion wreiddio egwyddorion y polisi mewn ymarfer bob dydd. Yn ogystal, derbyniodd yr ysgolion becynnau adnoddau chwarae i gynorthwyo staff i ddatblygu cyfleoedd chwarae ac annog ethos chwarae cryfach.

Mae'r gwaith yma'n adeiladu ar ymgysylltiad blaenorol gydag ysgolion, fel colofn reolaidd ar chwarae yng nghylchlythyrau ysgolion, sydd wedi helpu i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd chwarae a rhannu syniadau ac adnoddau gyda chymunedau ysgolion.

Bu'r ymateb gan ysgolion yn gadarnhaol dros ben, gyda'r staff yn arddangos brwdfrydedd tuag at ddatblygu eu dealltwriaeth o chwarae ac archwilio ffyrdd ymarferol i ddarparu cyfleoedd ystyrlon i blant chwarae. Mae'r dull hwn wedi helpu i symud y sgwrs ynghylch chwarae y tu hwnt i ddim ond cydnabod ei bwysigrwydd, tuag at fynd ati'n weithredol i greu amgylcheddau ble caiff plant fwy o gyfleoedd i brofi, mwynhau ac elwa o chwarae.

Mae'r prosiect, drwyddo draw, wedi arddangos gwerth cydlafurio gydag ysgolion, staff, cyrff llywodraethu a phlant i hyrwyddo dealltwriaeth gyson o hawl plant i chwarae ac i gefnogi ysgolion wrth roi hyn ar waith.

Cyfnodau pontio wedi eu seilio ar chwarae yn Sir y Fflint

Mae'r prosiect Lles Chwarae yn rhaglen 12 wythnos o hyd, wedi ei lleoli mewn ysgolion, a ddatblygwyd ac a drosglwyddwyd trwy gydweithio mewnol rhwng tîm Datblygu Chwarae a thîm Cynhwysiant a Dilyniant Sir y Fflint. Mae'r prosiect yn defnyddio chware fel dull ymyrraeth gynnar a lles, gan ddarparu cefnogaeth wedi ei dargedu i blant allai fod yn profi heriau ymddygiadol, anawsterau gyda rheoleiddio emosiwn, trawma neu Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod.

Trwy sesiynau chwarae strwythuredig ond hyblyg, mae Lles Chwarae yn creu amgylchedd diogel a chefnogol lle gall plant ffurfio perthnasoedd cadarnhaol, datblygu hyder a dysgu sgiliau sy'n eu cefnogi yn yr ysgol yn ogystal ag yn eu bywydau'n gyffredinol. Mae'r gweithgareddau wedi'u dylunio o amgylch meysydd allweddol yn cynnwys gwaith tîm, cyfathrebu, datrys problemau, mynegiant emosiynol, hunanreoleiddio, gwydnwch a rhyngweithio cymdeithasol cadarnhaol.

Mae'r rhaglen yn datblygu'n gynyddol dros y 12 wythnos. Ar y dechrau, mae'r sesiynau'n canolbwyntio ar greu diogelwch, ymddiriedaeth a pherthnasoedd cadarnhaol drwy chwarae. Yna, bydd y plant yn archwilio rheoli emosiynau, cymryd risgiau diogel, datrys gwrthdaro a goresgyn heriau, cyn symud tuag at fwy o annibyniaeth a defnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd drwy chwarae mewn sefyllfaoedd bob dydd.

Mae'r bartneriaeth rhwng y timau datblygu chwarae ac addysg yn galluogi ysgolion i ddynodi plant allai gael budd o gymorth ychwanegol wrth dynnu ar sgiliau a phrofiad gweithwyr chwarae i ddarparu gwahanol arddull i ymyriadau traddodiadol wedi eu lleoli yn yr ystafell ddosbarth. Mae trosglwyddiad cynnar wedi arddangos newidiadau cadarnhaol yng ngwaith tîm, cyfathrebu, goddefgarwch, a hunanreoleiddio'r plant a'u gallu i chwarae'n gadarnhaol gydag eraill.

Yn y bôn, mae Lles Chwarae yn arddangos sut y gellir defnyddio chwarae mewn modd bwriadol i gefnogi lles plant, atgyfnerthu perthnasoedd a dysgu sgiliau a strategaethau ymarferol i'r plant all gyfrannu at eu datblygiad yn y tymor hirach.



Sut y mae polisi addysg cenedlaethol yn cefnogi chwarae yng Nghymru ... creu'r cysylltiadau

Chwarae yw un o'r ffyrdd pennaf y bydd plant yn archwilio'r byd, profi syniadau, datrys problemau, datblygu perthnasoedd a chynyddu hyder. Yng Nghymru, mae'r ddealltwriaeth hon i'w gweld ar draws polisi addysg cenedlaethol. Mae nifer o bolisiau addysg Llywodraeth Cymru'n creu sylfaen cryf ar gyfer ysgolion chwarae-gyfeillgar.



Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn blaenoriaethu lles, datblygiad plant a dysgu dilys. Mae polisi plentynod cynnar yn cyfuno chwarae, dysgu a gofal. Yn ogystal, gall dulliau ehangach tuag at iechyd meddwl, ymgysylltu â'r gymuned a gwella ysgolion warchod ac ehangu cyfleoedd i chwarae. Mae'r polisiau hyn yn atgyfnerthu bod chwarae'n rhan annatod o ansawdd mewn addysg, ac nid yn elfen ychwanegol ddewisol.

Cwricwlwm i Gymru: caniatâd i ddysgu drwy chwarae

Mae'r Cwricwlwm i Gymru'n cynnig cyfle amlwg i atgyfnerthu chwarae trwy'r pedwar diben, sy'n anelu i gefnogi plant i ddatblygu fel:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog
- cyfranwyr mentrus, creadigol
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus
- unigolion iach, hyderus.

Mae darparu cyfleoedd i chwarae'n cefnogi'r pedwar diben: pan gânt gyfleoedd i chwarae yn yr ysgol, bydd plant yn gwneud penderfyniadau, cydweithredu, negodi, cymryd risgiau y gellir eu rheoli, yn defnyddio eu dychymyg ac yn gwneud synnwyr o'u hamgylchoedd.

Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar: model cydgysylltiedig

Mae'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar yn dwyn ynghyd bolisiau a rhaglenni ar gyfer babanod a phlant ifanc o'u geni i bump oed. Mae ei iaith yn bwysig. Yn hytrach na thrin chwarae, gofal ac addysg fel gwasanaethau ar wahân, mae'n gosod y plentyn a datblygiad y plentyn wrth galon arddull integredig. Mae'r cynllun yn hyrwyddo cyfleoedd cynhwysol, o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar chwarae ar draws gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin.

Mae hyn yn cyfrannu at well dilyniant i'r plant wrth iddynt symud rhwng y cartref, gofal plant, lleoliadau chwarae a'r ysgol. Mae hefyd yn creu sail dda ar gyfer partneriaeth ar draws sectorau. Mae gweithwyr chwarae, ymarferwyr gofal plant ac athrawon yn dod â sgiliau gwahanol, ond cyflenwol, i'r gweithlu plant. Pan gaiff arbenigedd ei barchu, gall arwain at gyfnodau pontio da i'r plant sy'n golygu y ceir deilliannau cadarnhaol uniongyrchol, gyda'r plant yn teimlo'n ddiogel, chwilfrydig ac yn barod i ddysgu.

Polisi lles: chwarae fel rhan o fywyd ysgol

Mae'r Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol yn gofyn i ysgolion adolygu eu darpariaeth, gan adeiladu ar eu cryfderau a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau. Mae chwarae'n perthyn o fewn y gwaith yma. Gall ddarparu lle i blant brosesu profiadau ar eu telerau eu hunain, tra bod oedolion dibynadwy yn dal i fod ar gael ond heb gymryd drosodd.

Mae dull ysgol gyfan yn atal chwarae rhag cael ei gyfyngu i un wers neu fenter. Mae'r fframwaith yn caniatáu:

- i uwch-arweinwyr ystyried chwarae wrth gynllunio
- i lywodraethwyr holi ynghylch amser chwarae a defnydd ar ôl ysgol
- i staff fyfyrto ar eu rôl yn ystod amser chwarae ac amser egwyl
- i blant helpu i siapio eu profiadau chwarae yn yr ysgol.

Fel y nododd yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae ac adroddiad Estyn *Iach a hapus – Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion*, mae'r dull hwn yn arbennig o bwysig ble fo rheoli ymddygiad, ymarfer gwrth risg neu bwysau ar yr amserlen wedi arwain at lai o gyfleoedd i chwarae.

Ysgolion Bro: agor cyfleoedd ar gyfer chwarae

Mae'r polisi Ysgolion Bro yn annog partneriaethau rhwng ysgolion, teuluoedd, cymunedau a gwasanaethau eraill. Mae hyn yn creu gwir botensial ar gyfer chwarae. Yn benodol, mae agor tiroedd ysgol y tu allan i oriau dysgu'n darparu cyfleoedd i weithio gyda gwasanaethau chwarae lleol a chynnwys teuluoedd yn natblygiad cyfleoedd i chwarae.

Gall tiroedd ysgol fod yn ased cymunedol sylweddol mewn cymdogaeth, gan ddarparu lle pan fydd plant lleol angen rhywle i chwarae. Bydd defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn helpu cymunedau ysgolion i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion megis staffio, yswiriant ac adnoddau. Mae prosiectau yng Nghymru wedi arddangos bod hyn yn cefnogi chwarae plant ac yn atgyfnerthu perthnasoedd rhwng yr ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Gwella ysgolion: dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr

Diwygiodd Llywodraeth Cymru ei Chanllawiau Gwella Ysgolion ym mis Ionawr 2026. Mae'r canllawiau diwygiedig yn hyrwyddo dull cydweithredol, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac yn canolbwyntio ar gynnydd, profiad a deilliannau'r dysgwr. Mae'r elfennau craidd hyn yn ddefnyddiol, gan symud gwelliant oddi wrth ffocws cul ar gyrhaeddiad ac annog ysgolion i archwilio profiad y plentyn yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn galluogi chwarae i fod yn rhan o ymgysylltu, lles a dysg i bob plentyn o dair i un ar bymtheg mlwydd oed.

Fel y dangoswyd yn ein herthygl ar brosiectau ysgol yng Nghymru, mae llawer o waith prosiect yn cael ei gynnal fel rhan o gynlluniau gweithredu digonolrwydd chwarae a gyda chyllid un-tro. Wrth ystyried gwelliannau, gall ysgolion fyfyrion ar amrediad o wahanol gwestiynau i hysbysu gweithredu ystyrlon a chynaliadwy:

- A yw pob plentyn yn cael digon o amser i chwarae?
- A ydyn nhw'n cael mynediad i ofodau amrywiol?
- A yw plant anabl yn cael eu cynnwys?
- A yw anghenion a dewisiadau dysgwyr hŷn yn cael eu hystyried?
- Pa mor aml mae dysgu awyr agored yn chwareus ac yn cael ei arwain gan y plant?
- Beth mae'r plant yn ei ddweud am gyfleoedd i chwarae?

Polisi cyfoethogi: creu cyfleoedd i chwarae

Mae ariannu cenedlaethol ar gyfer cyfleoedd cyfoethogi ysgolion, trwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol, yn cynnig llwybr ar gyfer cefnogi chwarae. Mae'n galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i ddarparu profiadau cymdeithasol, diwylliannol, creadigol a chorfforol y tu allan i ddysg ffurfiol – yn cynnwys cyfleoedd i chwarae – o amgylch y diwrnod ysgol ac yn ystod amser egwyl ysgol.

Mae'r ariannu'n anelu i annog presenoldeb, mynd i'r afael ag ymddieithrio, gwella lles corfforol ac emosiynol

a hybu cydraddoldeb mynediad. Mae'r arweiniad yn dynodi darparwyr gwaith chwarae ymysg y partneriaid y gallai ysgolion weithio gyda nhw. Mae hyn yn creu cyfle i gynnwys gweithwyr chwarae yn y broses o siapio darpariaeth sy'n ymateb i anghenion a diddordebau plant, yn hytrach na thrin cyfoethogi, yn syml, fel gweithgarwch ychwanegol gaiff ei arwain gan oedolion.

Gall cyfoethogi seiliedig ar chwarae fod ar nifer o wahanol ffurfiau. Gallai gynnwys gweithwyr chwarae'n cefnogi plant i:

- adeiladu a defnyddio rhannau rhydd fel cratiau, cardbord, ffabrig, planciau, teiers a deunyddiau naturiol
- creu cuddfannau a llochesau
- archwilio'r awyr agored, tyllu, a chwarae gyda dŵr a mwd
- arwain eu gweithgarwch celf a chrefft, cerddoriaeth, drama, gwisgo i fyny, adeiladu a dyfeisio eu hunain
- addasu a dyfeisio gemau iard chwarae
- profi chwarae ar olwynion.

Yr hyn sy'n bwysig yw, nid y gweithgaredd penodol, ond os oes gan y plant ddewis gwirioneddol, digon o amser i ymgolli'n llwyr, a'r rhyddid i siapio ac ail-siapio eu chwarae.

O addewidion polisi i ymarfer chwareus

Mae polisi addysg cenedlaethol yn ein cyfeirio tuag at alluogi chwarae fel rhan o brofiad y dysgwr, ond mae gweithredu'n dibynnu ar benderfyniadau a wneir bob dydd.

Gall arweinyddion addysg a phartneriaid roi polisi ar waith trwy:

- warchod amserau chwarae heb unrhyw darfu ac osgoi tynnu amser chwarae'n ôl fel cosb
- cynnwys y plant yn y gwaith o archwilio, dylunio a gwella mannau chwarae
- darparu amgylcheddau amrywiol, hygyrch a deunyddiau hyblyg, dan do ac yn yr awyr agored
- cefnogi oedolion i ddeall chwarae, dulliau risg-budd ac arddulliau ymyrryd priodol
- blaenoriaethu a chynnwys chwarae yn y gwaith o ddylunio'r cwricwlwm, cynllunio lles a hunanwerthuso gwella ysgol
- gweithio gyda gweithwyr chwarae, teuluoedd, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol
- ystyried sut gall tiroedd ysgol gefnogi chwarae'r tu hwnt i'r diwrnod ysgol ffurfiol.

Caiff gweithrediad ymarferol hawl plant i chwarae mewn ysgolion ei gefnogi gan becynnau cymorth ac adnoddau Chwarae Cymru, sydd wedi eu cynnwys ar Hwb (www.hwb.llyw.cymru) ac sydd ar gael yn ein llyfrgell adnoddau: www.chwarae.cymru/llyfrgell-adnoddau

Mae gan Gymru'r sylfaen polisi da sydd ei angen ar gyfer system addysg sy'n chwarae-gyfeillgar. Pan mae chwarae'n cael ei werthfawrogi fel rhan o ddylunio'r cwricwlwm, darpariaeth plentynod cynnar, lles, ymgysylltu cymunedol a gwella ysgolion, fydd dim rhaid i blant ddewis rhwng dysgu a chwarae. Maent yn cael eu cefnogi i wneud y ddau – oherwydd, yn amlach na pheidio, maen nhw'n gwneud y ddau beth ar yr un pryd!

Llwybr i Waith Chwarae

Mae rhaglen hyfforddi arloesol a ddatblygwyd gan dîm hyfforddi Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn helpu arddegwyr mewn ysgolion uwchradd i ennill cymwysterau cydnabyddedig, cynyddu eu hyder a'u lles, ac archwilio gyrfaedd gwaith chwarae.

Mae'r rhaglen Llwybr i Waith Chwarae yn dangos sut gall arddull gwaith chwarae greu deilliannau ystyrlon ar gyfer arddegwyr sydd wedi troi cefn ar addysg draddodiadol. Dawn Bunn, Rheolwr Hyfforddiant Cenedlaethol Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, sy'n sôn am ei heffaith a chynlluniau i'r dyfodol.

Bwriad y rhaglen yw adeiladu ar Agored Cymru Lefel 1 mewn gwaith chwarae trwy ei gyfuno ag unedau addysg gysylltiedig â gwaith presennol i baratoi dysgwyr ar gyfer darpar-yrfaoedd mewn gofal plant a gwaith chwarae. Y canlyniad yw Llwybr i Waith Chwarae, a drosglwyddir trwy arddull a hysbysir gan waith chwarae. Yn lle disgwyl i arddegwyr ymaddasu i addysg draddodiadol, mae'r rhaglen yn cwrdd â nhw ble y maen nhw. Mae gemau, heriau, gweithgareddau creadigol, gwaith tîm a phrofiadau ymarferol yn gwneud dysgu'n broses weithredol, ddiddorol tra'n dal i gyflawni deilliannau achrededig.

Trosglwyddwyd y rhaglen lawn yn Sir Ddinbych o Ionawr i Ebrill 2026. Roedd nifer o'r dysgwyr a ymunodd yn dioddef o ddiffyg hyder, pryder mewn sefyllfa grŵp, presenoldeb gwael neu anawsterau ymgysylltu gydag eraill. Mae'r cwrs yn cynnig amgylchedd diogel, cefnogol ble gall dysgwyr gyfranogi ar eu tempo eu hunain, creu ymddiriedaeth a datblygu strategaethau ymdopi ymarferol.

Bu'r effaith yn sylweddol. Dechreuodd yr arddegwyr – disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 – oedd wedi osgoi rhyngweithio, weithio mewn timau a chyfrannu'n hyderus. Datblygodd

y dysgwyr eu gallu cyfathrebu, gwydnwch, annibyniaeth a'u sgiliau cyflogadwyedd. Sylwodd y staff ar newid mawr yn yr arddegwyr oedd, fel arfer, wedi eu hynysu yn yr ysgol ond dyfodd yn weithredol, cymdeithasol a llawn diddordeb yn ystod y rhaglen.

O'r deuddeg dysgwr ddechreuodd y rhaglen gyntaf yn Sir Ddinbych, llwyddodd wyth i'w chwblhau. Mewn pedwar mis, fe wnaethant gwblhau Tystysgrif Estynedig Lefel 1 Agored Cymru mewn Addysg sy'n Gysylltiedig â Gwaith, sydd gyfwerth â dwy TGAU gradd D-G, ynghyd â chymwysterau lefel 1 mewn gwaith chwarae a phwysigrwydd chwarae yn natblygiad plant. I rai, dyma eu llwyddiant addysgol sylweddol cyntaf.

Roedd lleoliadau profiad gwaith yn elfen bwysig o'r rhaglen wreiddiol gan helpu i hyrwyddo gwaith chwarae fel opsiwn gyrfa. Enillodd y dysgwyr brofiad uniongyrchol o gefnogi chwarae plant, cyfathrebu gyda chydweithwyr a deall ymarfer wedi ei arwain gan blant. Dangosodd rai fenter a sgiliau arweinyddol, tra chwilliodd eraill am oriau lleoliad gwaith ychwanegol.

Dangosodd ein dysg o'r garfan gyntaf, tra bo'r profiad yn werthfawr i lawer o'r dysgwyr, nid oedd pob un yn barod ar gyfer lleoliad gwaith chwarae. Felly, creodd y tîm hyfforddi ddau lwybr:

- **Llwybr i Waith Chwarae**, sy'n canolbwyntio ar ddysgu yn y dosbarth a datblygiad personol
- **Llwybr i Waith Chwarae ac Arfer**, sy'n cynnwys elfen lleoliad deg awr o hyd.

Mae'r hyblygrwydd yma'n caniatáu inni deilwra'r ddarpariaeth i weddu i anghenion a pharodrwydd y dysgwr unigol tra'n cynnal nodau craidd y rhaglen.

Gwelir canlyniadau'r model diwygiedig eisoes. Yn dilyn cwrs Sir Ddinbych trosglwyddwyd dau gwrw yn Sir y Fflint. O'r 21 o ddysgwyr gymerodd ran, enillodd 18 ohonynt o leiaf gymwysterau TGAU rhannol ac ymgymryd yn llwyddiannus gyda'r elfen gwaith chwarae, tra'n

dal i elwa o ffocws ar les, hyder a pherthnasoedd cadarnhaol.

Efallai mai'r canlyniad mwyaf trawiadol fu'r twf mewn hunanhyder ymysg y dysgwyr. Mae gwerthusiadau'n dangos cynnydd clir o ddechrau i ddiwedd y rhaglen. Disgrifiodd y dysgwyr am ddysgu i reoli straen, cyfathrebu'n fwy effeithiol a theimlo mwy o ymgysylltiad gydag addysg. Dywedodd un o'r dysgwyr bod y rhaglen wedi eu helpu i 'ddarganfod eu llais,' a soniodd un arall nad oedd wedi deall y gallai dysgu deimlo'n 'gyfforddus'.

Mae'r adborth oddi wrth ysgolion a phartneriaid awdurdod lleol wedi bod yn gadarnhaol hefyd. Dywedodd Dan Larkin, Rheolwr Ysgolion Bro Cyngor Sir Y Fflint: 'Mae'r cwrs, yn gyffredinol, wedi cyfoethogi gwybodaeth, hyder, ac ymarfer proffesiynol y dysgwyr, gan roi sgiliau gwerthfawr iddynt gaiff effaith gadarnhaol ar y plant a'r teuluoedd y maent yn eu cefnogi.' Mae'r rhaglen hefyd yn creu deilliannau i'r gweithlu, gyda rhai o'r dysgwyr yn mynd ymlaen i gymwysterau gwaith chwarae lefel 2 ac eraill yn symud i mewn i gyflogaeth neu wirfoddoli ym maes gofal plant.

Daw'r rhaglen i ben gyda dathliad ble cyflwynir tystysgrifau, portffolio ar gyfer cyflawniadau'r dyfodol a thaflen o sylwadau cadarnhaol oddi wrth eu cyfoedion i'r dysgwyr. I lawer, mae'r balchder a arddangosir yn ystod y cyflwyniadau hyn yn dystiolaeth rymus o effaith y rhaglen.

Wrth edrych ymlaen, gobaith Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yw y bydd y rhaglen ar gael yn ehangach dros Gymru. Ar adeg pan mae sefydliadau'n chwilio am ffyrdd i ymgysylltu ag arddegwyr, gwella deilliannau addysgol a datblygu llwybrau gweithlu i'r dyfodol, mae'r Llwybr i Waith Chwarae yn dangos gwerth cyfuno dysgu achrededig, datblygiad personol a phrofiad ymarferol ar gyfer y rheini sy'n edrych ar yrfaoedd mewn gofal plant a gwaith chwarae.

Os hoffech ddysgu mwy am raglen hyfforddi Llwybr i Waith Chwarae, cysylltwch gyda Dawn Bunn:
DawnB@clybiauplantcymru.org

O Uchelgais i Weithredu:

myfyrio ar gynnydd ar gyfer chwarae yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae adroddiad terfynol Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru'n myfyrio ar y cynnydd a wnaed a'r camau a gymerwyd ers diweddariad 2025. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu'r ymrwymiad parhaus i sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru'r hawl i chwarae.


Mae Cymru wedi ei hen adnabod fel cenedl sy'n gwerthfawrogi hawl plant i chwarae. O gyflwyno'r Polisi Chwarae yn 2002 i weld y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n cael ei deddfu yn 2010, mae llawer iawn wedi ei gyflawni i sicrhau bod gan blant gyfleoedd i chwarae yn eu cymunedau.

Rhoddodd yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, a gynhaliwyd rhwng 2019 a 2022, gyfle pwysig i bwysu a mesur y cynnydd hwnnw ac ystyried beth arall ellid ei wneud i gryfhau cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws Cymru. Cyflwynodd yr adolygiad 67 o gamau gweithredu oedd yn anelu i wreiddio chwarae'n ddyfnach ar draws polisi, gwasanaethau a chymunedau.

Ym mis Medi 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei adroddiad terfynol, *Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae: O Uchelgais i Weithredu*, gan ddwyn ynghyd y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiad cynnydd cyntaf yn 2025. Mae'r adroddiad terfynol yn amlygu sut y mae chwarae'n dal i ddylanwadu ar feysydd polisi mor amrywiol â chynllunio, addysg, iechyd, diogelu, datblygu'r gweithlu a lles cymunedol. Yn bwysicach fyth, mae'n arddangos ymrwymiad awdurdodau lleol, sefydliadau cenedlaethol, ymarferwyr a chymunedau sy'n trosi polisi'n newid ystyrion i blant.


Mae'r adroddiad yn arddangos nad yw'r gwaith o greu Cymru sy'n fwy cyfeillgar i chwarae yn dechrau a gorffen gyda chywres o gamau gweithredu. Mae cefnogi cyfleoedd plant i chwarae'n gofyn am gydweithio, buddsoddiad ac eiriolaeth barhaus. Bellach, mae nifer o'r camau gweithredu gododd o'r adolygiad wedi dod yn rhan o raglenni ehangach Llywodraeth Cymru a'i ffyrdd o weithio, gan helpu i sicrhau bod chwarae'n dal i fod yn weladwy ar draws datblygu a gwneud penderfyniadau polisi.

Ynghyd â diweddariadau ar gynnydd yn genedlaethol, mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o bob cwr o Gymru sy'n dangos y gwahaniaeth y mae'r gwaith yma'n ei gael yn ymarferol. O welliannau wedi'u harwain gan y gymuned i fannau chwarae lleol a gwell cydnabyddiaeth i leisiau'r plant wrth greu lleoedd, i ddatblygiadau mewn rheoliadau gwaith chwarae a chefnogi ysgolion i dyfu'n fwy cyfeillgar i chwarae, mae'r straeon hyn yn arddangos sut gall ymrwymiad cyffredin i chwarae greu buddiannau parhaol ar gyfer plant, teuluoedd a chymunedau.



Tra bo llawer i'w ddathlu, mae'r adroddiad yn ein hatgoffa hefyd nad yw'r uchelgais wedi newid: i sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru ddigon o gyfleoedd i chwarae.

Wrth i heriau a chyfleoedd newydd ymddangos, mae'r ddysg o'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae'n cynnig sylfaen cadarn y gellir adeiladu arno. Wrth i weinyddiaeth bresennol Llywodraeth Cymru symud ymlaen â'i rhaglen ar gyfer llywodraethu, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i'r agenda blynyddoedd cynnar ac i greu'r amodau sy'n cefnogi lles a datblygiad plant, a'u hawl i chwarae.



Mae'r adroddiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ynghyd â fersiynau HTML, PDF a chyfeillgar i blant, er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i gynulleidfa mor eang â phosibl. Mae fersiwn BSL o'r adroddiad i ddilyn. Gobeithio yr achubwch ar y cyfle i ddarllen yr adroddiad, myfyrio ar y cynnydd a wnaed, ac ymuno gyda ni i barhau i eiriol dros hawl plant i chwarae yng Nghymru.

www.llyw.cymru/adolygiad-gweinidogol-o-gyfleoedd-chwarae-o-uchelgais-i-weithredu-mai-2026

'Hawl yw chwarae nid braint'

Yn ddiweddar, fe gawsom sgwrs gyda Sioned Williams AS, y Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb. Mae rôl y Gweinidog yn cynnwys cyfrifoldeb am bolisi chwarae.



© Llywodraeth Cymru

Wrth feddwl yn ôl i'ch plentyndod chi, beth yw eich hoff atgofion chwarae?

Oedd patshyn bach o laswellt o flaen y rhes o dai teras lle oedden ni'n byw. Oedden ni gyd yn mynd mas a dyna lle oni'n cymysgu a chwarae gyda phlant o bob oedran. Roedd chwarae yn rhan o fywyd bob dydd ac oedden ni'n dyfeisio pob mathau o gemau, rhoi rhaffau lan er mwyn chwarae tennis rhwng y coed a chwarae cuddio. Oedd e'n gyfle i wneud ffrindiau newydd – roedd yn gymdeithasol bwysig.

Sut mae eich profiadau plentyndod chi wedi dylanwadu ar eich safbwyntiau ar hawl plant i chwarae?

Dwi'n gweld pa mor sylfaenol bwysig yw hawl plant i chwarae, ac mae'n ffordd o sicrhau bod plant yn datblygu yn gymdeithasol. Ond, hefyd, mae'n rhyw fath o fesur cydraddoldeb, yn yr ystyr ei fod yn rhywbeth mae gan bob plentyn hawl iddo, bod e'n rhywbeth ddylen ni sicrhau bod yna ddim rhwystrau o ran bod nhw'n medru gwneud hynny. Weles i fy hunan pa mor bwysig oedd e i fi, nid yn unig i gadw'n iach, mwynhau o ran y gemau dychmygol,

dysgu sut i gyd-chwarae gydag eraill, a gwneud ffrindiau newydd, ond bod e'n rhywbeth gallai fod ar gael i bawb, a dyle fod ar gael i bawb.

Beth yw eich gweledigaeth ar gyfer chwarae plant yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf?

Mae gweledigaeth y Llywodraeth yma yn sicr yn gytun bod chwarae yn hawl nid braint. Dwi'n Weinidog Cabinet dros Gydraddoldeb yn ogystal â'r blynyddoedd cynnar a pholisi chwarae, felly mae'n rhywbeth sy'n cydweu gyda'r polisïau eraill rydyn ni'n eu datblygu i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae un ym mhob tri o blant yng Nghymru mewn tlodi, ac rydym yn gwybod bod hynny'n brif flaenoriaeth i'r Llywodraeth yma i fynd i'r afael â hi. Rydym yn gweithio'n galed iawn ar y polisi gofal plant sydd hefyd yn annatod yn ymwneud â chwarae. Felly, 'dyw hynny ddim yn mynd i newid, ac rydym ni gobeithio yn mynd i adeiladu ar hynny i'r dyfodol. Mae'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn dangos bod yna opsiynau efallai, o ystyried y cyd-destun newydd o ran amddifadedd, technoleg a'r cyd-destun cymdeithasol rydym ynddo, i feddwl eto ynglyn â'r opsiynau. Mae'r adroddiad yma yn rhywbeth y gallwn ni yn sicr adeiladu arno.

Mae plant yn dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi cael amser, lle a chaniatâd i chwarae'r tu allan gyda'u ffrindiau. Beth ydych chi'n feddwl allwn ni ei wneud, fel aelodau o'r gymuned, i wneud pethau'n haws i blant chwarae'r tu allan?

'Dyw sicrhau cyfleon i chwarae ddim yn rhywbeth y gall y llywodraeth ei wneud ar ei ben ei hunan. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid, ac arbenigwyr fel Chwarae Cymru sy'n cael cyllid craidd gan y llywodraeth i ddatblygu polisi ac i herio ac i gynnig syniadau polisi. Mae partneriaid awdurdodau lleol yn hollbwysig o ran darparu cyfleon ac rydym yn darparu grant o £10,000 i bob awdurdod lleol i sicrhau bod nhw'n cyflawni'r ddyletswydd o ran asesu digonolrwydd chwarae, ac yna gweld lle mae'r cyfleon a'r bylchau. Yn ehangach, mae ysgolion, a phartneriaid yn y maes gofal plant, partneriaid sy'n cynnig cyfleon i blant y tu allan y diwrnod ysgol, i gyd yn chwarae rhan yn hyn. Os wnawn ni gadw yng nghanol hyn oll yr hawl i chwarae, sy'n wraidd i bob polisi ac i bob partneriaeth mae'r llywodraeth yn rhan ohoni, gallwn ni gyda'n gilydd sicrhau bod gan pob plentyn y cyfleon sydd eu hangen i chwarae.

Ar adeg o gyni ariannol, beth fydddech chi'n ei ddweud wrth bobl sy'n dal i ystyried chwarae fel elfen 'braf i'w chael' yn hytrach nag elfen annatod o blentyndod?

Mae'n rhywbeth mae'n rhaid i ni warchod yn erbyn ar bob cyfrif, achos 'dyw chwarae ddim yn rhywbeth braf i'w chael. Mae'n hollol hanfodol i ddatblygiad plant, i'w lles a'u hiechyd nhw, ac wrth gwrs yr elfen gymdeithasol sydd mor bwysig, yn enwedig nawr pan mae gan blant fwy o opsiynau o fod ar eu pen eu hunain, o ran technoleg a phob mathau o gemau a dyfeisiau sy'n rhan o'u byd nhw. 'Dyw'r pethau yna ddim yn mynd i fynd i fwrdd, felly er mwyn cydbwysu hynny mae'n rhaid i ni sicrhau bod cyfleon i chwarae ar gael i bob plentyn.

Mae cydraddoldeb yn bwysig. Mae diffyg adnoddau ariannol gan deuluoedd i ddarparu cyfleon i'w plant yn rhywbeth mae'n rhaid i ni ystyried drwy ein holl bolisiau sy'n ymwneud gyda sicrhau cyfleon a chwarae teg i blant mewn tlodi, i geisio'u codi nhw mas o dlodi. Rydym yn adolygu ein strategaeth tlodi plant, a bydd chwarae yn ran hanfodol o hynny. Yn y portffolio addysg, mae pethau fel darparu cyllid ar gyfer cynlluniau chwarae yn y gwyliau a'r cynlluniau Bwyd a Hwyl, lle ni'n cyfuno pethau sy'n cael eu targedu tuag at blant sy'n profi amddifadedd cymdeithasol ac ariannol, hefyd yn gallu darparu'r cyfleon chwarae iddyn nhw ar yr un pryd.

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, fel rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, yn ddeddfwriaeth arloesol. Beth, yn eich barn chi, yw'r gwahaniaeth pennaf y mae wedi ei wneud i blant yng Nghymru?

Mae'n linydd arian sy'n gorfod mynd trwy bob polisi. Nid yw'r gofyniad statudol ar bob awdurdod lleol, drwy'r Ddyletswydd

Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, yn rhywbeth sy'n cael ei wneud un tro, mae'n barhaus. Rydym ni wedi comisiynu ymchwil i asesu a yw'r ddyletswydd presennol yn parhau i fod yn addas i'r diben. Fyddwn ni wedyn yn gobeithio mabwysiadu dull gweithredu gonest yn gysylltiedig gyda'r ymchwil, i edrych a ydyn ni angen gwella'r polisi, gweld beth rydym yn ei gyflawni ar hyn o bryd ac edrych i'r dyfodol ar sut allwn ni gryfhau y ddyletswydd ymhellach.

Ers cymryd cyfrifoldeb am chwarae plant, beth sydd wedi eich taro chi fwyaf am y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu chwarae plant yng Nghymru heddiw?

Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw sicrhau ein bod yn cadw'r elfen yna o hawl yn ganolog i bopeth. Mae gyda ni hanes anrhydeddus o ran ystyried hawliau plant a llais y plentyn. Mae gwrando ar lais y plentyn a sicrhau bod yr hawl i chwarae yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud yn hanfodol. Mae pethau y gallwn ni eu gwneud o ran ystyried y dystiolaeth sydd gyda ni, yr ymchwil rydym wedi ei gomisiynu, effeithiolrwydd y grantiau rydym yn eu darparu, ond hefyd y cyd-destun ehangach o ran cyfraddau tlodi, y math o fyd mae ein plant ni yn byw ynddo fe ar hyn o bryd, a sicrhau bo ni'n ystyried yr holl ffactorau hynny.

Mae diddordeb a pharch parhaus yn rhyngwladol tuag at y gwaith y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud yng nghyd-destun polisi chwarae plant. Beth, yn eich barn chi, yw cyfle mawr nesaf Llywodraeth Cymru i adeiladu ar y gwaddol pwysig hwn?

Mae'n rhaid i ni edrych ar y gofodau a'r cyfleon sydd ar gael, y materion o ran mynediad, beth sy'n atal plant rhag cael mynediad at gyfleon chwarae, a 'dyw hynny ddim yn rhywbeth syml. Mae angen ei ystyried dros nifer o feysydd polisi, felly un o'r pethau ry'n ni'n ceisio ei wneud fel llywodraeth newydd yw sicrhau ein bod ni'n cymryd golwg hollistaidd ar y polisiau yma, bod e ddim yn gyfrifoldeb i un gweinidog. Mae iechyd, addysg, tlodi a chydaddoldeb oll yn dod mewn i hyn. Ond hefyd, pethau fel diwylliant a chwaraeon a'r polisiau o gwmpas hynny. Mae nhw i gyd yn gysylltiedig, a rydym angen sicrhau ein bod yn meddwl am bolisiau sydd yn ystyried y plentyn cyfan, a bod hynny'n digwydd ar draws y llywodraeth.

Ac i gloi, pa neges hoffech chi ei hanfon at blant ar hyd a lled Cymru am eu hawl i chwarae?

Hawl yw chwarae nid baint. Hefyd mae'r neges yn glir o ran pwysigrwydd chwarae: bod e ddim yn rhywbeth ymylol, neu'n rhywbeth braf os oes adnoddau ar gael, bod e'n gwbl ganolog i les a datblygiad a iechyd ein dinasyddion ieuengaf.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Datblygu'r gweithlu

Dan y chwyddwydr...

Ym mhob rhifyn, rydym yn siarad gyda gweithiwr proffesiynol o fyd chwarae a gwaith chwarae er mwyn cyflwyno cipolwg ar amrywiaeth y gweithlu a'r gwahanol swyddi sydd ar gael yn y sector. Ar gyfer y rhifyn hwn, cawsom sgwrs gyda Paula Butler, Arweinydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Alli di ddweud ychydig wrthym am dy hun a sut gychwynnaist ti yn dy rôl bresennol?

Fi yw'r Arweinydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn Rhondda Cynon Taf, ble rwy'n gweithio i gefnogi cyfleoedd i blant chwarae a bod yn actif yn eu cymunedau. Mae fy nghefnidir mewn gweithio gyda phlant, teuluoedd a phrosiectau cymunedol, ac rwyf wastad wedi bod yn angerddol ynghylch pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant. Mae fy rôl bresennol yn caniatáu imi gyfuno'r angerdd hwnnw gyda gwaith strategol i helpu i wella cyfleoedd chwarae ar draws y fwrdeistref sirol.

Beth mae dy rôl yn ei olygu?

Mae fy rôl fel Arweinydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cynnwys gweithio'n agos gydag Arweinwyr Ysgolion Bro'r awdurdod lleol i gynorthwyo ysgolion i greu amgylcheddau ble caiff y plant fwy o gyfleoedd i chwarae trwy gydol y diwrnod ysgol. Mae hyn yn cynnwys helpu ysgolion i ddatblygu polisïau chwarae, gwella gofodau awyr agored, cyflwyno chwarae rhannau rhydd, a gwreiddio diwylliant sy'n cydnabod pwysigrwydd chwarae ar gyfer lles, datblygiad a dysg plant.

Un maes allweddol o'n gwaith digonolrwydd chwarae yw cefnogi ysgolion i agor eu tiroedd at ddefnydd cymunedol ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Er mwyn cynorthwyo gyda hyn,

fe wnaethom ddarparu grantiau i 10 o ysgolion i brynu offer ac adnoddau chwarae. Yn ystod tymor yr haf, fe agorodd pob ysgol ei amgylchedd awyr agored i deuluoedd a chymunedau lleol fel rhan o fenter beilot.

Yn ogystal â gweithio gydag ysgolion, rwy'n cydweithio gyda sefydliadau cymunedol, adrannau'r awdurdod lleol, ac ystod eang o bartneriaid i ddatblygu prosiectau, creu partneriaethau cynaliadwy, a chyfrannu at drosglwyddo'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae statudol. Mae'r gwaith yma'n anelu i wella mynediad i gyfleoedd chwarae o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.

Beth yw agwedd bwysicaf neu fwyaf pleserus dy waith?

Agwedd fwyaf pleserus fy ngwaith yw gweld yr effaith cadarnhaol mae chwarae'n ei gael ar les, hyder a datblygiad plant. Rwy'n cael boddhad mawr o weithio gyda phartneriaid sydd wedi ymrwymo i greu amgylcheddau ble gall plant chwarae'n rhydd ac elwa oddi wrth y cyfleoedd cymdeithasol, corfforol ac emosiynol y mae chwarae'n eu darparu.

Beth fyddet ti'n ei ddweud wrth ysgolion sy'n anelu i wneud mwy i gefnogi chwarae plant?

Dechreuwch trwy gydnabod bod chwarae'n rhan hanfodol o ddysg a datblygiad plant. Gall newidiadau bychain, fel darparu rhannau rhydd, cynyddu cyfleoedd ar gyfer chwarae'r tu allan a gwrando ar farn y plant, wneud gwahaniaeth sylweddol. Gall creu diwylliant sy'n gwerthfawrogi chwarae gael effaith cadarnhaol ar les, ymddygiad ac ymgysylltiad.

A oes rhywbeth yr wyt ti'n ei deimlo sy'n heriol am dy swydd?

Un o'r heriau pennaf yw taro cydbwysedd rhwng blaenoriaethau sy'n cystadlu am adnoddau tra'n hybu pwysigrwydd chwarae. Ond, mae gweld ysgolion a chymunedau'n croesawu chwarae a bod yn dyst i'r buddiannau i blant yn gwneud yr heriau hynny'n werth yr ymdrech.

Adolygiad Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae wedi ei gwblhau

Ers diwedd 2024, mae Chwarae Cymru wedi bod yn arwain adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae, ar ran Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU.

Yn dilyn y broses ymgynghori'n ystod Mawrth ac Ebrill 2026, ystyriodd y consortiwm yr holl adborth a dderbyniwyd a chyflwyno'r NOS i'w cymeradwyo'n derfynol. Roedd yr adborth ar y broses ddatblygu a

chynnwys y NOS yn gadarnhaol iawn ac mae wedi cyfrannu at atgyfnerthu'r NOS terfynol. Mae'r NOS wedi eu cyfieithu ac mae fersiynau terfynol y NOS Cymraeg a Saesneg bellach wedi'u cyhoeddi ar Fasdata Safonau a Fframweithiau'r DU. www.ukstandards.org.uk

Mae adroddiad ymgynghori ar gael – e-bostiwrch adolygiadnos@chwarae.cymru i ofyn am gopi.

I ddysgu mwy am broses datblygu'r NOS ac i weld cyfres gyflawn y NOS gwaith chwarae, ewch i'n gwefan: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu

Datblygu'r gweithlu

Fforwm Gweithwyr Chwarae 2026

Ein digwyddiad awyr agored blynyddol ar gyfer ymarferwyr

Bob blwyddyn, mae'r Fforwm Gweithwyr Chwarae'n dwyn ymarferwyr ynghyd o bob cwr o Gymru a thu hwnt am ddau ddiwrnod o ddysgu, rhannu, myfrio ac archwilio chwareus mewn lleoliad awyr agored, gwledig.

Parhaodd fforwm 2026 gyda'r hoff draddodiad hwn, gan gynnig amser i'r gweithwyr chwarae draw oddi wrth bwysau bob dydd i ailgysylltu gyda'i gilydd, datblygu eu hymarfer a dathlu'r proffesiwn. Cafodd rhaglen eleni ei ffurfio o gwmpas hudoliaeth gwaith chwarae, Fframwaith NYTH ar gyfer lles plant a sut y mae'n cysylltu gyda gwaith chwarae, cynladwyedd a chysylltu damcaniaeth gydag ymarfer, sgiliau ymarferol, modelau ariannu, tyfu eich gweithwyr chwarae eich hunain a myfyrdodau ar ymarfer gwaith chwarae.

Wedi ei chynnal dros y 1 a'r 2 Gorffennaf, creodd y fforwm le i ymarferwyr feddwl, siarad, creu, symud, chwarae a myfrio gyda'i gilydd. Dangosodd adborth gwerthuso bod y cyfranogwyr, unwaith eto, wedi gwerthfawrogi'r fforwm yn fawr iawn. Trwy'r gwerthusiadau'n gyffredinol, disgrifiodd y cyfranogwyr iddynt ennill syniadau ymarferol newydd, hyder o'r newydd, safbwyntiau ffres a dealltwriaeth ddyfnach o sut gall yr Egwyddorion Gwaith Chwarae gefnogi plant, teuluoedd a chymunedau. Dywedodd un o'r cyfranogwyr bod y digwyddiad wedi rhoi 'syniadau newydd ac ysbrydoliaeth' iddynt y gallent eu hymgorffori mewn cyfleoedd chwarae a chefnogaeth wedi eu lleoli yn y gymuned, tra myfyriodd un arall bod y fforwm wedi eu helpu i feddwl yn greadigol am 'sut y galla' i gyflwyno mwy o enydau hudol a mwy o chwaraeusrwydd'.

Fel yn y gorffennol, roedd y fforwm yn llawer mwy na dim ond y rhaglen



swyddogol. Cafodd ei disgrifio dro ar ôl tro gan y cyfranogwyr fel gofod ar gyfer cysylltu, gonestrwydd, llawenydd, creadigedd ac adfywio egni. Galwodd un o'r cyfranogwyr y fforwm yn 'adeg i fod draw oddi wrth bwysau bob dydd i ddathlu chwaraeusrwydd ac i ddysgu mewn llecyn hyfryd', tra disgrifiodd un arall y digwyddiad fel cyfle i 'gysylltu gyda chydweithwyr, rhannu heriau' a dychwelyd i'r gwaith yn teimlo'n 'llawn ysgogiad, wedi adfywio, ac mewn sefyllfa well i barhau i eiriol dros gyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc'.

Wrth i Fforwm Gweithwyr Chwarae 2026 ddirwyn i ben, gadawodd y

cyfranogwyr gyda syniadau newydd, perthnasoedd cryfach ac ymdeimlad o falchder newydd yn y proffesiwn gwaith chwarae. Cofnododd yr adborth yr hyn mae'r fforwm yn dal i'w olygu i ymarferwyr: cyfle prin a gwerthfawr i oedi, myfrio, chwarae, cysylltu a chofio pwysigrwydd y gwaith y maent yn ei wneud. Unwaith eto, profodd y Fforwm Gweithwyr Chwarae i fod yn gynulliad blynyddol hanfodol ar gyfer ymarferwyr sydd wedi ymrwymo i greu cyfleoedd gwell ar gyfer chwarae plant.

Bydd y Fforwm Gweithwyr Chwarae'n ôl ar 23 a 24 Mehefin 2027!

Newidiadau chwareus yn Ysgol Gynradd Y Rhws

Mae Ysgol Gynradd Y Rhws ym Mro Morgannwg wedi bod yn talu sylw penodol i gyfleoedd i chwarae ar gyfer y disgyblion i gyd yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Y Pennaeth, Matt Worth, sy'n dweud mwy wrthym.

Weithiau, bydd y newidiadau mwyaf yn dechrau gyda'r teimlad anghyfforddus bod rhywbeth ddim yn gweithio. Yn Ysgol Gynradd Y Rhws, daeth y teimlad hwnnw i'r amlwg yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024. Er gwaethaf ymroddiad y staff, roedd ein darpariaeth Meithrin a Derbyn wedi tyfu'n fwyfwy traddodiadol ac wedi ei gyfarwyddo gan oedolion. Roedd lliwiau cysefin llachar, adnoddau plastig a gweithgareddau wedi eu rheoli'n gaeth yn drech yn ein dosbarthiadau. Ar yr un pryd, roeddem yn llwyddo i wreiddio dysgu seiliedig ar ymchwilio ar draws gweddill yr ysgol, ond yn y blynyddoedd cynnar roedd yn teimlo fel ei fod yn annaturiol.

Bu ymweliad â Wingate Nursery yn Swydd Durham yn drobwynt. Daeth aelodau allweddol o'n staff yn ôl wedi eu hysbrydoli gan yr hyn a welwyd: plant yn arwain eu dysg eu hunain mewn amgylcheddau cyfoethog, dilys ble roedd chwilfrydedd, yn hytrach na chydymffurfio, yn gyrru'r diwrnod.

Yna daeth Estyn ar ymweliad. Dynododd yr arolygwyr ddiffygion sylweddol yn ein darpariaeth blynyddoedd cynnar, gan nodi nad oedd athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r amgylcheddau dan do ac awyr agored i alluogi'r plant i ymchwilio a deall eu byd. Er bod hyn yn anodd ei glywed, fe roddodd rywbeth amhrisiadwy inni: caniatâd a phwrpas i ailfeddlw popeth.

Heb gyllideb, ein cyflenwyr oedd Facebook Marketplace ac arwerthiannau cist car. Disodlwyd y plastig gan ddeunyddiau naturiol – cafodd lliwiau cysefin eu hamnewid am liwiau llai llachar. Daeth yr ystafelloedd dosbarth yn ofodau tawelach, mwy pwrpasol oedd yn gwahodd y plant i archwilio yn hytrach na dim ond cwblhau tasgau.

Yn raddol, cafodd y gofodau eu strwythuro lai a llai, gan ganiatáu mwy o annibyniaeth a rhyddid tra'n cynnal disgwyliadau uchel ar gyfer y dysgu. Gwelwyd yr effaith bron ar unwaith.

Tyfodd y plant yn fwy hyderus, gwydn a chydweithredol. Fe wnaethon nhw lwyddo i ddatrys problemau'n annibynnol a dangos parodrwydd i groesawu heriau nad oeddem wedi ei weld o'r blaen. Er bod data cyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd wedi aros yn ddigon tebyg ar y cychwyn, roedd rhywbeth llawer pwysicach yn newid.

Yn hytrach na mesur yr hyn allai plant ei gyflawni gyda chymorth oedolyn yn ystod tasgau â ffocws, fe wnaethom ddechrau arsylwi'r hyn allan nhw ei gymhwyso'n annibynnol wrth chwarae. Fe wnaeth yr enydau hynny ddatgelu dealltwriaeth ddyfnach, mwy o annibyniaeth ac awydd llawer cryfach i ddysgu.

Efallai mai'r elfennau mwyaf trawiadol oedd y gwelliannau mewn ymddygiad a llafaredd. Fe wnaeth y plant ddysgu i



negodi, egluro, ymresymu, dadlau a datrys gwrthdaro yn naturiol drwy chwarae. Bellach, nid oedd dysgu'n rhywbeth oedd yn digwydd iddyn nhw, fe dyfodd yn rhywbeth yr oedden nhw'n ei geisio'n weithredol.

Wrth i'r garfan gyntaf hon symud ymlaen i Flwyddyn 1, fe wnaeth ein darpariaeth esblygu gyda nhw. Roedd chwarae'n dal i fod yn elfen ganolog ond fe gynyddodd ein disgwyliadau, gydag amgylcheddau a ddyluniwyd yn ofalus yn cynnig heriau cynyddol tra'n gwarchod galluedd y plant.

Fe wnaeth llwyddiant trawsnewidiad y blynyddoedd cynnar ysgogi newid pellach. Roeddem hefyd wedi datblygu cwricwlwm wedi ei seilio'n sylweddol ar chwarae yn ein darpariaeth anogaeth ysgol goedwig ar gyfer plant oedd yn profi heriau cymdeithasol ac emosiynol sylweddol. Fe wnaeth gwyllo'r dysgwyr bregus hyn yn ffynnu yn yr awyr agored ein harwain i ofyn cwestiwn syml: os yw chwarae'n gweithio mor bwerus i'n plant ieuengaf a mwyaf bregus, pam ddylen ni stopio gyda hynny?

Daeth yr ateb gyda threial ym Mlwyddyn 4. O gael cyfleoedd i ddringo coed, adeiladu cuddfannau, adeiladu, chwarae rôl ac archwilio llawn dychymyg, fe ddangosodd y plant greadigedd, gwydnwch a chydweithredu rhyfeddol.

Heddiw, mae pob plentyn yn cael amser bob wythnos i archwilio'r ysgol goedwig yn ogystal â chwarae distrwythur. Mae rhannau rhydd, gofodau adeiladu cuddfannau ac ardaloedd tyllu wedi tyfu'n nodweddion parhaol o amgylchedd ein hysgol, gyda chynlluniau i gydbblethu chwarae'n fwy penodol gyda dysgu trwy ymchwilio ar draws y cwricwlwm.

Nid yw'r daith wedi bod heb ei heriau. Roedd y staff angen amser, hyfforddiant a hyder i ildio rheolaeth. Roedd rhaid inni dawelu meddyliau rhieni drwy gyflwyniadau a sesiynau chwarae.

Efallai mai asesu fu'r her bennaf. Rydym bellach yn cofnodi datblygiad plant drwy brofiadau go iawn yn hytrach na thasgau unigol. Mae'r gwaith hwn yn dal i esblygu ac mae bellach yn ganolog i sut yr ydym yn deall cynnydd. Mae ein taith gyda chwarae'n bell o fod trosodd.

Mae'r hyn gychwynnodd fel ymateb i argymhelliad arolwg wedi tyfu'n rhywbeth llawer mwy arwyddocaol: newid sylfaenol yn sut yr ydym yn ystyried plentyndod, dysgu a rôl yr ysgol ei hun.